Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 16_Tachwedd/Rhagfyr 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Sandy Mewies yn siarad mewn digwyddiad i nodi cwymp Wal Berlin yng Nghyngor Caerdydd. Yn y llun mae:

Rhes gefn, o'r chwith i'r dde: **Marcin Grabiec**, aelod o gabinet Is-lywydd Wallstrom, y Comisiwn Ewropeaidd; **Christopher Langen**, Cynorthwyydd Almaeneg fel iaith dramor; **Andy Klom**, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru; **Peter Ferda**, Is-gennad Anrhydeddus y Weriniaeth Tsiec.

Rhes flaen, o'r chwith i'r dde: **Halina Ashley**, Rheolwr y ganolfan Bwyleg yn Llanelli; **Sandy Mewies AC**; **Helga Rother-Simmonds**, Is-gennad yr Almaen yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r unfed rhifyn ar bymtheg o Materion Ewropeaidd, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf bob mis am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Hoffwn dalu teyrnged arbennig i Rhodri Morgan AC, yn dilyn ei ymddiswyddiad fel Prif Weinidog Cymru ar 8 Rhagfyr. Mae Rhodri'n frwd dros Ewrop, ac yn frwd dros sicrhau llais cryf i Gymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Dangosodd hynny yn y sesiynau rheolaidd â'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol lle byddai'n rhoi'r newyddion diweddaraf i ni am waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Edrychaf ymlaen at weithio â'i olynydd, Carwyn Jones AC.

Adlewyrchir newidiadau yng Nghymru gan newidiadau ym Mrwsel, lle bu cryn gynnwrf yn dilyn cadarnhau Cytuniad Lisbon ddechrau mis Tachwedd, ac a ddaeth i rym o'r diwedd ar 1 Rhagfyr. Un o'r camau cyntaf oedd cytuno ar lenwi'r ddwy "swydd fawr" a grëwyd gan y Cytuniad (swyddi Llywydd y Cyngor Ewropeaidd ac Uwch-gynrychiolydd i'r UE). Dilynwyd hyn ddiwedd mis Tachwedd gan gyhoeddiad Arlywydd Barosso ynghylch dyrannu portffolios i'r rhai a enwebwyd ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd newydd. Yna, bydd yn rhaid i Senedd Ewrop gymeradwyo dyraniad y portffolios yn ffurfiol. Cynhelir gwrandawiadau ganol mis Ionawr, a bydd y pedwar Aelod o Senedd Ewrop o Gymru yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses hon.

Bydd gan Gytuniad Lisbon oblygiadau uniongyrchol i Gymru, drwy'r protocol sybsidiaredd newydd, sy'n cydnabod seneddau rhanbarthol am y tro cyntaf mewn cytuniad yr UE. Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ymchwiliad yn ystod 2008 i oblygiadau hyn i Gymru, a chafwyd sawl trafodaeth ers hynny; er enghraifft, trafodwyd y protocol sybsidiaredd mewn cyfarfod diweddar rhwng Arglwydd Dafydd Elis-Thomas o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywyddion deddfwrfeydd datganoledig eraill y DU. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n cyfeillion yn y deddfwrfeydd datganoledig a dau dŷ Senedd y DU, er mwyn rhoi'r protocol newydd ar waith.

Mae'r datblygiadau hyn yn cyd-fynd â gwaith Confensiwn Cymru Gyfan, a gadeiriwyd gan Syr Emyr Jones Parry, a chyhoeddiad amserol ei adroddiad ym mis Tachwedd, yn galw am refferendwm ar ddatganoli pwerau ehangach i Gymru. Mae trafodaeth debyg, wrth gwrs, yn mynd rhagddi yn yr Alban, drwy waith comisiwn Calman a blaenoriaethau gwleidyddol Llywodraeth yr Alban ei hun, ac mae'n debygol y bydd goblygiadau o ran monitro a rhoi deddfwriaeth yr UE ar waith petai pwerau deddfu newydd yn cael eu trosglwyddo o Lundain yn y dyfodol.

Ar 9 Rhagfyr, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad interim ar yr ymchwiliad i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE, ac edrychwn ymlaen at gyflwyno prif gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn ym Mrwsel gerbron cynulleidfa Ewropeaidd ar ddydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth 2010. Gan fod dros £2 biliwn o arian Ewropeaidd yn dod i Gymru rhwng 2007 a 2013, mae hwn yn faes polisi pwysig iawn, a'n bwriad yw sicrhau bod Cymru'n cymryd rhan flaenllaw yn y drafodaeth dros bolisi'r dyfodol, a fydd yn dwysáu yn ystod 2010-2011.

Bydd y drafodaeth hon yn digwydd yng nghyd-destun ehangach yr adolygiad o gyllideb yr UE a blaenoriaethau strategol Comisiwn newydd Barrosso. Bydd hyn yn cynnwys olynydd i Strategaeth Lisbon, a fydd yn debygol o gael ei hadnabod fel Strategaeth EU2020. Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cadw llygad

ar y materion hyn, a bydd yn cynnal ymchwiliad i'r adolygiad o gyllideb yr UE yn ystod 2010. Bydd yr ymchwiliad yn cyfeirio at y trafodaethau ehangach ar ddyfodol Strategaeth Lisbon, y Polisi Cydlyniant a'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol.

Hoffwn longyfarch Christine Chapman AC, cynrychiolydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, am fod ei hadroddiad ar ddyfodol Strategaeth Lisbon wedi ei dderbyn yn llwyddiannus. Mae hyn yn enghraifft ragorol sy'n dangos bod Cymru ar flaen y gad ym Mrwsel yn y drafodaeth ar y strategaeth Ewropeaidd allweddol hon.

Ar 2 Tachwedd cefais gyfarfod cynhyrchiol iawn â'r pedwar Aelod newydd Cymreig o Senedd Ewrop, lle trafodwyd gwaith y Pwyllgor, a'r ffyrdd y gallwn gydweithio ar faterion sydd o fudd i Gymru, ac edrychaf ymlaen at barhau â hyn yn ystod 2010.

O ran pwyllgorau eraill y Cynulliad, mae ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i greu swyddi yn yr economi werdd yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun ymateb yr UE i'r argyfwng economaidd ac ariannol, ac o ran blaenoriaethau disgwyliedig Strategaeth EU2020, olynydd Strategaeth Lisbon. Cynhaliwyd eu sesiwn dystiolaeth gyntaf ym mis Tachwedd, a disgwylir i'r ymchwiliad ddod i ben yn ystod tymor cyntaf 2010.

Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd yn disgwyl cytuno ar adroddiadau ar lifogydd a lleihau allyriadau carbon yn gynnar yn 2010, a bydd yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig yn fuan yn cyhoeddi canlyniadau ei ymchwiliadau i'r diwydiant llaeth yng Nghymru a dyfodol yr ucheldiroedd.

Yn olaf, roedd yn bleser gennyf gymryd rhan fel prif siaradwr mewn dau ddigwyddiad ym mis Tachwedd yn dathlu cerrig milltir yn hanes diweddar Ewrop. Roedd y cyntaf i nodi 20 mlynedd ers cwymp Wal Berlin, mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gyngor Caerdydd a Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Agoriad arddangosfa o ffotograffau o'r 'Baltic Way' oedd yr ail, i gofio digwyddiad arall 20 mlynedd yn ôl, yn fuan cyn dymchwel Wal Berlin, pan wnaeth mwy na miliwn o bobl ddewr ddal dwylo i greu cadwyn ddynol ddi-dor yn ymestyn am 600km, gan gysylltu tair prifddinas y gwledydd Baltig.

Sandy Mewies
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Busnes yn ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

– **Ymchwiliad i ddyfodol Polisi Cydlyniant yr UE:** Cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad interim yr ymchwiliad hwn ar 1 Rhagfyr, ar gyfer ei gyhoeddi ar 9 Rhagfyr. Roedd hyn yn dilyn cynnal y sesiynau tystiolaeth olaf ar 3 Tachwedd, lle casglwyd tystiolaeth gan Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR) a swyddogion o adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau Llywodraeth y DU.

– **Blwyddyn Ewropeaidd 2010 dros frwydro yn erbyn tlodi ac allgau cymdeithasol:** Cynhaliwyd sesiynau ar 17 Tachwedd a 1 Rhagfyr, lle casglwyd tystiolaeth gan Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, swyddogion o'r Adran Gwaith a Phensiynau, sydd yn arwain trefniadau'r Flwyddyn Ewropeaidd yn y DU, Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru a Plant yng Nghymru.

– **CALRE:** Ar 3 Tachwedd, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Rosemary Butler AC, y Dirprwy Lywydd, ynghylch cyfraniad y Cynulliad i CALRE, y rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer deddfwrfeydd a chynulliadau rhanbarthol.

– **Y Comisiwn Ewropeaidd:** Ar 17 Tachwedd, cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Andy Klom, pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, ynghylch gweithgareddau allgymorth a gweithgareddau eraill a drefnwyd gan y swyddfa yn ystod 2009.

– **Adroddiad Prif Weinidog Cymru:** Ar 1 Rhagfyr rhoddodd Rhodri Morgan AC, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y tro olaf yn ei swydd fel Prif Weinidog Cymru. Soniodd am weithgareddau rhyngwladol Llywodraeth Cymru a datblygiadau mewn sawl maes polisi, fel dyfodol y Polisi Cydlyniant, Strategaeth Lisbon ac adolygiad cyllideb yr UE.

Y Pwyllgor Menter a Dysgu

– **Creu swyddi yn yr economi werdd:** Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth cyntaf y Pwyllgor ym mis Tachwedd, yn cynnwys sesiynau craffu ar Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yn ogystal â thystiolaeth gan Ysgol Fusnes Caerdydd.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

– **Llifogydd a lleihau allyriadau carbon:** Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiadau ar ei ymchwiliadau i lifogydd a lleihau allyriadau carbon yng Nghymru yn gynnar yn 2010.

– **Mynediad i ddŵr mewndirol:** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 a 12 Tachwedd. Bydd yr ymchwiliad hwn yn parhau yn 2010.

– **Craffu ar gyrff a noddir gan y Llywodraeth:** Yn ystod 2010, bydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r parciau cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o ymdrin â'r ffordd y mae Cyfarwyddebau Ewropeaidd yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru, yn cynnwys y gyfarwyddeb cynefinoedd.

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

– **Dyfodol ucheldiroedd Cymru:** Mae'r Is-bwyllgor yn cynnal ymchwiliad i ddyfodol economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ucheldiroedd Cymru, ac ar 23 Tachwedd cynhaliwyd cyfarfod yn Nhregaron i drafod yr heriau a'r cyfleoedd gydag undebau'r ffermwyr, y parciau cenedlaethol a Chymdeithas Mynyddoedd Cambria. Roedd hwn yn dilyn sesiwn dystiolaeth ar 19 Tachwedd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Fforwm yr Ucheldir a'r Comisiwn Coedwigaeth.

– **Y diwydiant llaeth yng Nghymru:** Cyhoeddodd yr Is-bwyllgor yr adroddiad ar ei ymchwiliad ym mis Tachwedd 2009.

– **Y diwydiant gwin, cwrw a seidr:** Mae'r Is-bwyllgor yn bwriadu cynnal ymchwiliad i'r diwydiant gwin, cwrw a seidr yn ystod 2010, a disgwylir y bydd yn ystyried enghreifftiau o arfer gorau o rannau eraill o'r byd, yn cynnwys Seland Newydd.

Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

– **Llywyddion y Deddfwrfeydd Datganoledig:** cymerodd y Llywydd, Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, ran yng nghyfarfod blynyddol Llywyddion y tair deddfwrfa ddatganoledig, ar y cyd ag Alex Fergusson o Senedd yr Alban a William Hay o Gynulliad Gogledd Iwerddon. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd goblygiadau o ran sybsidiaredd yng Nghytuniad Lisbon.

– **Pwyllgor y Rhanbarthau:** cafodd barn Christine Chapman AC ar ddyfodol Strategaeth Lisbon ei mabwysiadu gan gyfarfod llawn o Bwyllgor y Rhanbarthau ar 3 Rhagfyr.

– **Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA):** Ymwelodd Mike German AC â Brwsel ar 15-16 Tachwedd fel rhan o ddirprwyaeth o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, sy'n cynnal ymchwiliad i ofod economaidd rhanbarthol a rhanbarthau macro ar draws Ewrop. Bydd y Pwyllgor yn ymweld â Stockholm ar 13-14 Rhagfyr am ragor o gyfarfodydd, yn cynnwys cyfarfodydd â Llywodraeth Sweden, sef y sefydliad a oedd yn bennaf gyfrifol am fabwysiadu Strategaeth Môr y Baltig – sy'n enghraifft o ranbarth macro – ddiwedd mis Hydref.

– Ar 17 Tachwedd, Sandy Mewies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, oedd y prif siaradwr mewn digwyddiad i gofio **ugain mlynedd ers dymchwel wal Berlin**. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, o dan gadeiryddiaeth Andy Klom, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Ymhlith y gwesteion roedd y Cynghorydd Rodney Berman, Arweinydd Cyngor Caerdydd, Marcin Grabiec, Swyddfa Breifat Margot Wallström, Is-Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Halina Ashley, Cyfarwyddwr Canolfan Ddiwylliannol y Pwyliaid yn Llanelli, Peter Ferday, Is-gennad Anrhydeddus y Weriniaeth Tsiec a Helga Rother-Simmonds, Is-gennad Anrhydeddus yr Almaen.

– Ar 19 Tachwedd, siaradodd Sandy Mewies AC yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd, fel rhan o arddangosfa **"The Baltic Way That Moved the World"**, a oedd yn dathlu ugain mlynedd ers i fwy na miliwn o bobl ddal dwylo mewn cadwyn ddynol yn ymestyn dros 600 km gan gysylltu tair prifddinas y gwledydd Baltig. Cafodd y digwyddiad ei gynnal gan ei Ardderchogrwydd Mr Eduards Stiprais, llysgennad newydd Latfia i'r DU, a oedd ar ei ymweliad cyntaf â Chymru, a Mr Andris Taurins, Is-gennad Anrhydeddus Latfia.

Ymwelwyr rhyngwladol â'r Senedd

– Ar 26 Tachwedd, ymwelodd **Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru**, â'r Senedd, gan annerch y Cyfarfod Llawn.

– Ar 1Rhagfyr, ymwelodd **Ei Arddechogrwydd Mr Fakhraddin Gurbanov, Llysgennad Azerbaijan** i'r DU, â'r Cynulliad, ar ei ymweliad swyddogol cyntaf â Chymru.

– Ar 2 Rhagfyr, cynhaliodd y Cynulliad dderbyniad i ddathlu **pen-blwydd y Gymanwlad fodern yn 60 oed**. Cafwyd anerchiadau gan Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, Llywydd y Cynulliad, sydd hefyd yn Lywydd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, chan Janet Ryder AC, Cadeirydd y gangen, ynghyd â neges bersonol ar ran Mr Kamalesh Sharma, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymanwlad.

Lincs
– Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Hysbysiad Busnes y Cynulliad
– Tudalennau'r Pwyllgorau
– Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Am ragor o wybodaeth–

Cysylltwch â:
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu
Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
archebu@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.